**Disgrifiwch yr ardal lle oeddech chi’n byw cyn symud yma**

Roedd hi’n ardal hardd iawn – ardal wledig, efo coedwigoedd a llawer o lefydd i fynd am dro

**Fasach chi’n licio symud yn ôl i fyw yno?**

Na faswn – mae’n well gen i’r mynyddoedd a’r mor yng Nghymru!

TRAC 25

## Siarad am y teulu – talking about the family

### Deialog 3

‘Sgynnoch chi deulu?

Oes, mae gen i deulu Mawrth  
Dwedwch rywbeth am eich teulu

Mae gen i bartner, dau o blant a rhieni

Faint oed ydy eich plant chi?

Mae Osian yn wyth oed ac mae Non yn bedair oed. Maen nhw'n mynd i'r ysgol ym Mae Colwyn

Be' am eich rhieni chi? Lle maen nhw'n byw?

Yn anffodus mi gawson nhw ysgariad. Mae mam yn byw yn Nolgellau ac mae dad yn byw yn Rhosneigr

‘Sgynnoch chi chwiorydd neu frod yr o gwbl?

Oes, mae gen i chwaer sydd yn briod yn Llanddulas ac mae gen i frawd sy'n byw yn Nhrefriw.

Ydy eich Taid neu Nain dal yn fyw?

Ydyn mae nhw'n byw ym Mae Colwyn – maen nhw'n ddefnyddiol iawn i warchod y plant!

### Deialog 4

Dwedwch rywbeth am eich teulu, os gwelwch yn dda

Dim problem, mae gen i wr o'r enw Siôn, tri brawd, tad a mam yng nghyfraith

Mae gynnoch chi deulu mawr – lle maen nhw'n byw?

Oes – mae fy ngŵr i yn byw efo fi yn Llanfair. Mae fy modryb yn byw yn Lloegr efo eu teulu nhw. Mae fy nhad yn byw reit agos i ni yn y pentref a fy mam yng nghyfraith yn byw ym Mhwllheli

**Ydy eich gŵr yn gweithio?**

Nac ydy, mae o wedi ymddeol ddwy flynedd yn ôl.

**TRAC 26**

**Be da'ch chi'n hoffi wneud? / What do you like doing?**

**Deialog 5**

**Be' ydy'ch diddordeb mwyaf chi?**

Dwi'n hoff iawn o chwarae sboncen ac fel arfer 'dw i'n chwarae ddwywaith yr wythnos

**Lle da'ch chi'n chwarae sboncen?**

'Dw i'n chwarae sboncen yn y ganolfan hamdden yn Abergele – dwi'n aelod o'r tîm yno

**Ydy chwarae sboncen yn eich cadw'n heini?**

Ydy, mae'n ffordd dda o gadw'n heini ond rhaid i chi fod yn ffit cyn dechrau.

**'Sgynnoch chi ddiddordebau eraill?**

Oes, dwi'n hoff o gerdded ar y mynyddoedd – wnes i gerdded i fyny'r Wyddfa dros y penwythnos

**Wnaethoch chi gerdded i'r copa?**

Naddo, mi es i hanner ffordd i fyny, wedyn mi wnes i ddod i lawr ar y trê Bach

**Lle fyddwch chi'n mynd tro nesa?**

Mi fydda i'n mynd i Gwm Idwal efo ffrindiau yn y Clwb Dringo

**Deialog 6**

**Dwedwch rywbedd am eich hoff ddiddordebau**

Dwi'n hoff iawn o goginio a bwyta allan

**Lle aethoch chi i fwyta allan y tro diwethaf?**

Mi es i Dafarn y Pentre' dros y penwythnos - mi ges i ginio rhost dydd Sul ac roedd o'n flasus

**Gaethoch chi bwdin?**

**Do mi ges i hufen ia**

**Oeddech chi'n hoff o goginio pan oeddech chi'n blentyn?**

Ô'n – ro'n i'n helpu mam yn y gegin i baratoi bwyd i'r teulu ond wrth gwrs, dôn i ddim yn hoff o olchi llestri

**Fyddwch chi'n coginio rhywbeth arbennig heno 'ma?**

Na fydda – mi fydda i'n mynd allan am fwyd efo fy ffrindiau heno – mi fydda i wedi blino yn lan ar ôl y prawf!

**'Dw i'n gweld! Be da'ch chi ddim yn hoffi ei wneud?**

**'Dw i ddim yn hoff iawn o chwaraeon a 'dw i ddim yn hoff o sefyll y prawf Cymraeg.**

## TRAC 27

### LLE DA'CH CHI'N GWEITHIO? / WHERE DO YOU WORK?

#### Deialog 7

Ga'i ofyn lle da'ch chi'n gweithio?

Cewch, 'dw i'n gweithio i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Be' ydy teitl eich swydd gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub?

Ymarferydd Diogelwch Tân Cymunedol ydw i yn yr adran Diogelwch Cymunedol.

Ers faint da'ch chi'n gweithio yn yr adran?

Ers dwy flynedd

Lle oeddech chi'n gweithio o'r blaen?

Ro'n i'n gweithio fel diffoddwr tân yn Llanfairfechan

Wnaethoch chi fwynhau gweithio yn Llanfairfechan?

Do

Fyddwch chi'n gweithio yn yr Adran Diogelwch Cymunedol yn y dyfodol?

Na fydda, mi fydda i'n symud i adran arall yr wythnos nesaf

#### Deialog 8

Dwedwch rywbeth am eich gwaith chi

Cynorthwydd Gweinyddol ydw i, gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, dwi'n gweithio yn Wrecsam

Be' da'ch chi'n wneud yn eich gwaith o ddydd i ddydd?

'Dw i'n trefnu cyfarfodydd, ateb y ffôn ac anfon e-byst

Pryd wnaethoch chi ddechrau gweithio i'r Gwasanaeth Tân ac Achub?

Wnes i ddechrau ddeg mlynedd yn ôl – ar ôl i mi adael yr ysgol

Be' fyddwch chi'n wneud fory?

Mi fydda i'n mynd i gyfarfod yn Llanelwy – mi fydda i'n ysgrifennu'r cofnodion

**Deunyddiau gwrando a deall atodol**

**Supplementary listening comprehension materials**

**Atodiad B / Appendix B**

**Sgyrsiau ar gyfer lefel 3**

**Conversations for Level 3**

## TRAC 28

### Adran 1 – Yn y Swyddfa

### Section 1 – In the Office

Da'ch chi'n siarad efo'ch cydweithiwr newydd  
You are talking with your new colleague

Ymarferwch yr eirfa cyn gwrando ar y sgwrs  
Practise the vocabulary before listening to the conversation

<b>Ro'n i – I was</b>	<b>Cyrraedd – to arrive</b>	
<b>Roeddet ti – you were</b>	<b>Diffodd – to extinguish</b>	
<b>Oeddet ti? – were you?</b>	<b>Adeiladu – to build</b>	<b>Unig ffordd – only way</b>
<b>Roedd – it ws</b>	<b>Adeilad – building</b>	<b>Gormod – too much</b>
<b>Oedd? – was it?</b>	<b>Difrod – damage</b>	<b>Cytuno – to agree</b>
<b>Nac oedd – no it wasn't</b>	<b>Neithiwr – last night</b>	<b>Symud – to move</b>

<b>A</b>	S'mae Ceri, sut wyt ti heddw? Wyt ti'n iawn?	<i>Hello Ceri, now are ou today? Are you ok?</i>
<b>B</b>	Ydw diolch Jo – mi wnes i fwynhau'r diwrnod cyntaf ddoe, diolch yn fawr	<i>Yes I am thanks Jo – I enjoyed the first day yestaerday, thank you</i>
<b>A</b>	Do wir? Dwi'n falch o glywed. Mae'r diwrnod cyntaf yn anodd weithiau. Lle oeddet ti'n gweithio o'r blaen?	<i>Did you really? I'm pleased to hear it. The first day is hard sometimes. Where did you work before?</i>
<b>B</b>	Ro'n i'n gweithio ym Mhencadlys yr Heddlu ar yr ail lawr. Roedd 'na olygfa dda dros y môr.	<i>I used to work at the Police Headquarters. There was a good view across the sea.</i>
<b>A</b>	Oedd? Ro'n i'n gweithio yn y Pencadlys flynyddoedd yn ôl – roedd 'na dân mawr unwaith. Roedd hi'n Ebrill y cyntaf os dwi'n cofio'n iawn. Mi wnaeth y Gwasanaeth Tân gyrraedd ac roedd 'na chwe injan dân.	<i>Was there? I used to work in the Headquarters years ago – there was a big fire once. It was April the fiorst if I remember correctly. The Fire Service arrived and there were 6 fire engines!</i>
<b>B</b>	Oedd. Roedd hi'n drist gweld y fflamau yn dod allan o'r to. Mi wnaeth hi gymryd pump awr i ddiffodd y fflamau. Roedden nhw'n ailadeiladu'r adeilad ar y pryd, felly doedd 'na ddim gormod o ddifrod.	<i>There were. It was sad to see flames coming out of the roof. It took five hours to extinguish the flames. They were rebuilding the building at the time, so there was not too much damage.</i>

A	Nac oedd. I newid y pwnc Jo, roeddet ti'n sôn am ddysgu Cymraeg ddoe. Ers faint wyt ti'n dysgu?	<i>No there wasn't. To change the subject Jo, you were talking about learning Welsh yesterday. For how long have you been learning?</i>
B	Dwi'n dysgu ers tair blynedd. Dwi'n sefyll * arholiad yr haf nesaf – y lefel canolradd. Ro'n i'n gwneud gwaith cartref neithiwr.	<i>I've been learning for three years. I'm sitting* an exam next summer – the intermediate level. I was doing homework last night</i>
A	Oeddet? Dwi'n sefyll * yr arholiad canolradd hefyd! Mae'n gyd-ddigwyddiad yn dydy!	<i>Were you? I'm sitting* the intermediate exam too! This is a coincidence, isn't it?</i>
B	Ydy – be wyt ti'n feddwl am siarad Cymraeg bob dydd efo'n gilydd? Dwi isio ymarfer mwy....	<i>Yes it is – what do you think about speaking Welsh together every day? I want to practise more...</i>
A	Fi hefyd. Dyma'r unig ffordd o ddysgu mwy, yn fy marn i!	<i>Me too. It's the only way of learning more, in my opinion!</i>

\*Notice that in Welsh you say 'stand' an exam not 'sit' or 'take' an exam as in English. 'Sefyll' is to stand but 'Eistedd' is to sit.

"Dwi'n sefyll arholiad haf nesaf"  
"I'm taking an exam next summer"

## TRAC 29

Adran 2 – Cymdeithasu

Part 2 – Socialising

Mae'n fore dydd Mercher ac roedd y tywydd dros nos yn ofnadwy.  
It's Wednesday morning and the weather overnight was terrible

Dyma'r eirfa – here's the vocabulary

MI wnes i – I did	Deffro – to awake	Eleni – this year
Mi wnes ti – you did	Mellten – lightning	Gwres - heat
Wnes ti ? – did you?	Llynedd – last year	
Mi wnaeth hi – she did	Taran - thunder	Ar lan y môr – by the sea
Mi wnaethon ni – we did	Sych a braf – dry and fine	Chwythu – to blow
Mi wnaethoch chi - you did	Tramor – abroad	Machlud - sunset

A	Bore da Ceri, sut wyt ti heddiw?	Good morning Ceri, how are you today?
B	Ddim yn rhy ddrwg – wnes ti glywed y storm neithiwr?	Not too bad – did you hear the storm last night?
A	Do – mi wnes i ddeffro tua 3 o'r gloch achos mi wnes i weld mellten fawr!	Yes I did, I woke about 3 o'clock because I saw a big lightning streak
B	Mi wnes i weld y fellten hefyd ac wedyn mi wnes i glywed taran fawr.	I saw the lightening as well and then I heard thunder
A	Do? Roedd hi'n stormus ofnadwy, yn doedd? Be' wnaeth y gath?	Did you? It was awfully stormy, wasn't it? What did the cat do?
B	Wnaeth hi ddim byd diolch byth ond mae'n well ganddi dywydd braf.	She didn't do anything, thank goodness – but she prefers fine weather
A	Mae'n well gen i dywydd braf – mi wnaethon ni fynd i Sbaen n yr haf ac roedd hi'n heulog iawn	I prefer fine weather too – we went to Spain in the summer and it was very sunny
B	Efo pwys wnaethoch hi fynd?	Whi did you go with?
A	Mi wnes i fynd efo'r teulu i gyd	I went with the whole family
B	Wnaethom ni ddim mynd dramor eleni – dydy mam ddim yn hoff o'r gwres	We didn't go abroad this year – mum isn't fond of the heat.
A	Be' wnaethoch chi?	What did you do?
B	Mi wnaethon ni fynd i Aberdaron am wythnos – mi wnaethon ni aros mewn carafán ar lan y môr	We went to Aberdaron – we stayed in a caravan by the seaside
A	Neis iawn wir – mae'n le bendigedig, ond dwi'n siŵr bod hi'n chwythu yno weithiau!	Very nice indeed – it's a wonderful place, but I'm sure it's windy there sometimes!

<b>B</b>	<p>Ydy – mae hi'n chwythu yno weithiau ond mi wnes i weld machlud braf yno llynedd</p>	<p><b>Yes, it's windy sometinmes but I saw a wonderful sunset last year</b></p>
----------	--	---

## TRAC 30

### Adran 3 – Yn y Cantín Section 3 – In the Canteen

**Mi gaeth y ddau ffrind brecwast llawn!**

**The two friends had a  
full Welsh breakfast!**

mi ges i – I had	aethon ni ddim – we didn't go	byth eto – ever again
mi gest ti – you had		fy llygaid – my eyes
dw i ddim wedi cael – I've not had		fy mol – my tummy
mi gaeth – he/she / it had		brecwast llawn – full breakfast
mi gaethoch chi – you had		fy mhen blwydd – my birthday
mi gaethon nhw – they had		bob dim - everything

- |   |  |  |
|---|--|--|
| A | O diar, mi ges i ormod i<br>fwyta!   | Oh dear, I had too much to<br>eat!   |
| B | Fi hefyd, roedd fy llygaid<br>yn rhy fawr i fy mol!  | Me too, my eyes were too<br>big for my tummy!  |
| A | Wyt ti wedi cael brecwast<br>llawn yn y cantín o'r<br>blaen?   | Have you had full<br>breakfast in the canteen<br>before?   |
| B | Do, unwaith - roedd fy<br>mhen-blwydd yn y gaeaf.<br><br>Dw i'n cofio rŵan, mi ges i<br>bob dim ar y plât!                               | Yes I have, once – it was<br>my birthday in the winter. I<br>remember now, I had<br>everything on the plate!                                     |
| A | Neis iawn - dweud wrtha i<br>be' gest ti....   | Very nice – tell me what<br>you had...   |
| B | Wel, mi wnes i ddechrau<br>efo uwd a mi ges i siwgr a<br>hufen ar ei ben o!  | Well, I started with<br>porridge and I had sugar<br>and cream on top of it   |
| A | Naddo wir! Dw i ddim<br>wedi cael uwd ers ôn i'n<br>blentyn!   | You didn't really! I haven't<br>had porridge since I was a<br>child  |
| B | Ar ôl yr uwd, mi ges i âwy<br>wedi 'i ffrio, dwy sleisen o<br>facwn, madarch, sosejys a<br>phwdin gwaed! O ia, ges i<br>sos brown hefyd. | After the porridge, I had a<br>fried egg, two slices of<br>bacon, mushrooms,<br>sausages and black<br>pudding. Oh yes, I had<br>brown sauce too! |

<b>A</b>	Oeddet ti ar dy ben dy hun?	Were you on your own?
<b>B</b>	Nac ôn. Roedd gen i ffrindiau efo fi ond mi gaethon nhw lai na fi.	No I wasn't. I had friends with me but they had less than me.
<b>A</b>	Be gaethon nhw wedyn?	What did they have, then?
<b>B</b>	Mi gaeth Eleri a Dewi frecwast llawn efo tost a marmalêd.	Eleri and Dewi had a full breakfast with toast and marmalade
<b>A</b>	Gaethoch chi ginio ar ôl y brecwast llawn?	Did you have lunch after the full breakfast?
<b>B</b>	Naddo - rodden ni'n sâl ac aethon ni ddim yno byth eto!	No – we were ill and we didn't go back there ever again!

## TRAC 31

### Adran 4 – Cyfathrebu Adran 4 – Communicating

**Mae rhywun isio trefnu cyfarfod, ond maen nhw i gyd yn brysur iawn!**

**Someone wants to arrange a meeting, but they are all very busy!**

Ga' i? – can I?	rhyngot ti – between you	awgrymu – to suggest
mi wna' i - I will (do)	pennaeth - boss	rhywbryd – sometime
Wnei di? – will you (do)?	meddwl amdano – thinking about	ffonio yn ôl – phone back
mi ddylai fod – it should be	O'r gorau – very well	

A	Bore da. Angharad Mai sy'n siarad, sut ga' i 'ch helpu chi?	Good morning. Angharad Mai speaking, how may I help you?
B	Bore da Angharad, Hywyn Jones sy 'ma yn yr Adran Gyllid. Dw i isio trefnu cyfarfod rhyngot ti, fi a dy bennaeth Eurwyn os ca' i.	Good morning Angharad, Hywyn Jones here, in the Finance Department. I want to arrange a meeting between you, me and your boss Eurwyn, if I can.
A	Dim problem Hywyn - pa ddyddiad oeddet ti'n meddwl amdano?	No problem Hywyn – what date were you thinking about?
B	Be' am ddydd Gwener yr wythnos nesa?	What about Friday next week?
A	Dal y lein am funud, mi wna' i sbio ar ei galendr o ... na, mae o'n mynd i Lundain dydd Gwener nesa	Hold the line a minute, I'll look at his calendar...no, he's going to London next Friday
B	O'r gorau, be' am y dydd Llun wedyn yn y p'nawn? Dw i'n dod i Fae Colwyn yn y bore.	Very well, what about Monday then in the afternoon. I'm coming to Colwyn Bay in the morning
A	Mae'n ddrwg gen i Hywyn, mi fyddwn ni'n mynd i gyfarfod yng Nghorwen.	I'm sorry Hywyn, we will be going to a meeting in Corwen
B	Dach chi'n brysur iawn Angharad! Wnei di awgrymu rhywbryd arall?	You are very busy Angharad! Can you suggest another time?

A	Wna' i - ydy dydd Iau yn gyfleus i ti o gwbl, mae o'n rhydd yn y bore?	I can do – is Thursday convenient for you at all, he's free in the morning?
B	Ydy, mae o. Dyna ni. Faint o'r gloch?	Yes, it is. There we are. What time?
A	Ga' i ddweud 11 o'r gloch?	Can I say 11 o'clock?
B	Mi fydd 11 or gloch yn iawn - am awr, mi ddylai fod yn ddigon	11 o'clock will be fine – for an hour, it should be enough
A	Iawn - dydd Iau nesa - mi wna' i fwcio ystafell gyfarfod a ffonio ti yn ôl.	Fine – next Thursday – I'll book a meeting room and phone you back
B	Gwych - diolch yn fawr, wela i chi wedyn - hwyl am y tro.	Great – thank you, see you then – bye for now.

## TRAC 32

### Adran 5 - Cyfarfodydd Section 5 – Meetings

Dach chi'n mynd i gyfarfod yn y Pencadlys rhanbarthol!

You are going to a meeting in divisional headquarters!

Geirfa – Vocabulary estyn -	ymddiheuriadau - apologies	gwres canolog – central heating
extend		
cyfrannu - contribute	cofnodion - minutes	arbed pres – to save money
cyfieithydd ar y pryd - simultaneous translator	unrhyw sylwadau – any comments?	
offer cyfieithu – translation equipment	nodi - noting	
clustfonau - earphones	adroddiad - report	cymryd drosodd – take over

### Cadeirydd

Croeso i'r cyfarfod heddiw  
a ga'i estyn croeso cynnes  
i'r aelodau newydd. Mae  
croeso i chi gyfrannu yn  
Saesneg neu Gymraeg  
heddiw. Croeso i'r  
cyfieithydd ar y pryd  
hefyd.

Welcome to today's  
meeting and may I extend a  
warm welcome to the new  
members. You are  
welcome to contribute in  
English or Welsh today.  
Welcome to the  
Simultaneous Translator

### Cyfieithydd

Mae gen i offer cyfieithu  
yma - pwy sy' eisaiu  
clustffonau? Dim ond un,  
da iawn - dyma ti Arwel.

I've got translation  
equipment here – who  
wants earphones? Only the  
one, very good – here you  
are Arwel.

### Ysgrifennydd

Dw i wedi derbyn  
ymddiheuriadau gan Brif  
Weithredwr yr Awdurdod  
ond dw i'n meddwl bod  
pawb arall yn bresennol  
Ydy pawb yn cytuno efo'r  
cofnodion? Ydach?

I have received apologies  
from the Authority's Chief  
Executive but I think that  
everyone else is present.

### Cadeirydd

Gwych! Gawn ni symud  
ymlaen i'r eitem gyntaf ar  
yr Agenda - dw i'n deal  
bod ni'n gwario gormod o  
bres ar y gwres canolog.

Does everyone agree with  
the minutes? Yes? Great!  
Can we move on to the  
first item on the Agenda – I  
understand that we are  
spending too much money  
on the central heating

### Ysgrifennydd

Mae gen i adroddiad,  
Cadeirydd, mi warion ni  
ddeg mil o bunnoedd  
llynedd. Felly, dw i'n  
meddwl bod ni angen troi'r

I have a report, Chair, we  
spent ten thousand pounds  
last year. I therefore think  
that we need to turn the  
central heating off

gwres canolog i ffwrdd.

**Cadeirydd**

Rhaid i mi ddweud, dw i ddim yn siŵr am ddiffodd y gwres. Dan ni'n dal ym mis Ionawr!

I must say, I am not sure about switching off the heating. We are still in January!

**Ysgrifennydd**

Ydan, ond oes 'na ffordd arall o arbed pres?

Yes we are, but is there another way to save money?

**Cadeirydd**

Rôn i'n meddwl mai cadw'r ffenestri ar gau ydy'r peth gorau. Oes 'na unrhyw sylwadau eraill

I was thinking that keeping the windows closed is the best thing. Are there any other comments

## TRAC 33

### ADRAN 6 – Y Gweithle Section 6 – The Workplace

Mae'r ffrindiau yn trafod "Iechyd a Diogelwch" yn y swyddfa  
The friends are discussing "Health and Safety" in the office  
**Geirfa – Vocabulary**

erthygl - article	torri braich – break an arm	heb - without
damweiniau - accidents	gwaith arferol – usual work	taclus - tidy
o ddiddordeb – of interest	gofal - care	iechyd a diogelwch – health & safety
dyletswydd - duty	cyffyrddus - comfortable	
anafiadau - injuries		

- A Rôn i'n edrych ar y wefan neithiwr – a mi wnes i weld erthygl yn sôn am ddamweiniau yn y gweithle. Do wir? Oedd 'na unrhyw wybodaeth o ddiddordeb? Yn ôl yr erthygl, mae gynnon ni ddyletswydd i riportio damweiniau ac anafiadau yn y gwaith ar y wefan "damweiniau". Pa fath o ddamweiniau? Wel, os wyt ti'n torri braich neu asennau ,er enghraifft, neu unrhyw anaf arall sy'n stopio rhywun rhag gwneud ei waith arferol am fwy na thri diwrnod.
- B A hefyd, mi wnes i glywed bod rhaid i weithwyr gymryd gofal rhesymol dros eu hiechyd a'u diogelwch eu
- I was looking on the web last night – and I saw an article mentioning about accidents in the workplace  
Did you really? Was there any interesting information?  
According to the article, we have a duty to report accidents and injuries in work on the "accidents" website
- What type of accidents?  
Well, if you break an arm or ribs, for example, or any injury that stops someone partaking in their usual work for more than three days
- And also, I've heard that employee must take reasonable care for their own health and safety.

hunain.

- |   |   |   |
|---|---|---|
| A | Wyt i'n meddlw bod ein swyddfa yn iach ac yn ddiogel?                             | Do you think our office is fit and safe?  |
| B | Dyna gwestiwn da! Ydy dy sedd yn gyffyrddus ac yn ddigon cadarn i dy gefn?        | That's a good question! Is your seat comfortable and supporting your back enough?                           |
| A | Ydy. Fedri di roi dy draed ar y llawr a fedri di sbio ar y sgrin heb weld dy hun? | Yes, it is. Are you able to put your feet on the floor and can you see your screen without seeing yourself? |
| B | Medra. Beth bynnag, mae'n well i ni gymryd gofal a chadw'r lle yn daclus.         | Yes, I am able to. Whatever, it's best to take care and keep the place tidy.                                |

## TRAC 34

### Adran 7 – Gwyliau Blynnyddol Section 7 – Annual Leave

Mae rhywun yn curo ar y drws. Wnewch chi eu helpu nhw?  
Someone is knocking on the door. Can you help them?

rhaid i mi – I must  
rhaid i ti – you must  
  
roedd o – it was  
doedd o – it wasn't  
dôn i ddim – I wasn't

croeso yn ôl – welcome back  
aeth - went  
  
awyren - airplane  
canol nos – middle of the night  
erbyn – by, against

cwyno - complain  
dim yn ddigon da – not good enough  
golygfeydd - views  
anhygoel - unbelievable  
digwydd bod – it so happens

- |          |   |   |
|----------|---|---|
| <b>A</b> | Bore da Ceri, croeso yn ôl - neis i dy weld ti! Sut aeth y gwyliau? Wnest ti fwynhau dy hun?  | Good morning Ceri, welcome back – it's nice to see you! How did the holiday go? Did you enjoy yourself?   |
| <b>B</b> | Do, diolch. Roedd o'n fendigedig! Roedd y gwesty yn dda, roedd y twydd yn braf ond yn anffodus, doedd y siwrne ddim yn dda.<br>Nac oedd? Pam ddim?            | Yes I did thanks. It was marvellous! The hotel was good, the weather was fine but unfortunately, the journey wasn't good<br>Wasn't it? Why not?           |
| <b>A</b> | Roedd yr awyren yn hwyr iawn yn mynd allan i Sbaen. Felly, roedd hi'n ganol nos erbyn i ni gyrraedd y gwesty - dôn i ddim yn hapus o gwbl, rhaid i mi ddweud. | The „plane was very late going out to Spain.<br>Therefore it was the middle of the night before we reached the hotel – I was not happy at all, I must say |
| <b>B</b> | Dw i'n siŵr doeddet ti ddim. Wnest ti gwyno wrth y rep o gwbl?  | I'm sure you weren't. Did you complain to the rep at all?   |
| <b>A</b> | Do, a rhaid i mi anfon llythyr at y cwmni erbyn diwedd yr wythnos<br>Da iawn ti, rhaid i ti gwyno. Doedd o ddim yn ddigon da, nac oedd!                       | Yes I did and I must send a letter to the company by the end of the week.<br>Well done you, you must complain. It wasn't good enough was it!              |

**B**

Nac oedd! Rhaid i mi ddweud , mae'n werth mynd i Sbaen - roedd y môr yn glir ac yn gynnes. Roedd y gwesty ar lan y môr efo golygfeydd anhygoel! Rhaid i ti fynd. Oes mae rhaid i mi. Yn digwydd bod, rhaid i mi fwcio gwyliau cyn bo hir, mae Sbaen yn swnio'n lle braff.

**A**

No it was not! I must say, it's worth going to Spain – the sea was clear and warm. The hotel was on the seafront with unbelievable views! You must go.  
Yes, I must. It so happens I must book a holiday before long, Spain sounds like a lovely place

## **TRAC 35**

### **Adran 8 – Rhoi a derbyn Cyfarwyddiadau**

#### **Section 8 – Giving and receiving instructions**

ar agor - is open	gofyn i mi – asking me	ewch yn ôl – go back
uned gyfieithu – translation unit	fedra" i ddim – I am not able to	aton ni – to us
i eich poeni chi – to bother you	ysgrifennu – to write	caredig – kind
gyfieithiad sydyn – quick translation	blwch - box	galwch heibio – call by
rheolwr - manager		cyfrifiadur - computer

#### **Cnoc! Cnoc!**

**A**

**B**

**A**

**B**

**A**

**B**

**A**

#### **Knock! Knock!**

Dewch i mewn! Mae'r drws ar agor!	Come in! The door is open!
O bore da, yr uned gyfieithu?.... mae'n ddrwg gen i'ch poeni chi, ond ga'i ofyn am gyfieithiad sydyn?	Oh good morning, the translation unit?...I'm sorry to bother you but can I ask for a quick translation?
Cewch siŵr, caewch y drws a steddwch i lawr am funud. Be' 'sgynnach chi? Llythyr?	Yes certainly you can, shut the door and sit down for a minute. What have you got? A letter?
Na. Mi ddois i yma, achos daeth fy rheolwr i fy swyddfa i, a gofyn i mi deipio e-bost yn Gymraeg a fedra i ddim 'sgrifennu Cymraeg. Be' wna' i? Peidiwch â phoeni!	No. I came here, because my manager came into my office and asking me to type an email in Welsh and I'm not able to write Welsh. What will I do?
Teipiwrch yr e-bost yn Saesneg ac anfonwch o i'r blwch Uned Gyfieithu. Defnyddiwch y cyfrifiadur hwn os dach chi isio (eisiau).	Don't worry. Type the email in English and send it to the Translation Unit mailbox. Use this computer if you want.
Mi wna' i....o diar, fedra i ddim ffeindio'r nodiadau. Dw i ddim yn cofio be' i'w ddweud yn y neges.	I will do – oh dear, I'm unable to find the notes. I can't remember what to say in the message.
Dim ots. Ewch yn ôl i'ch swyddfa, ysgrifennwch y neges ac anfonwch yr e-	No matter. Go back to your office, write the message and send the email back to

	bost yn ôl aton ni.	us.
B	Diolch yn fawr. Dach chi' n garedig iawn. Galwch heibio am banad pan gewch chi amser!	Thank you. You are very kind. Call by for a cuppa when you have time

## TRAC 36

### Negeseuon llais bost enghreifftiol – Illustrative voicemail messages

#### Here are some options that you may find useful for recording voicemail messages:

Ceri Jones sy' ma. Fedra' i ddim cym'yd eich galwad ar hyn o bryd. Gadewch neges ar ôl y tôn os gwelwch yn dda ac mi wna i'ch ffonio chi yn ôl. Diolch .

Dach chi wedi cyrraedd estyniad Ceri Jones. Dw i yn y swyddfa heddiw, ond fedra i ddim cymryd eich galwad ar hyn o bryd. Gewch chi adael neges ac mi wna' i ffonio chi yn ôl. Diolch yn fawr.

Ceri Jones sy 'ma. Mae'n ddrwg gen i ond dw i allan o'r swyddfa tan ddydd Gwener, y nawfed o Fawrth. Os oes gynnoch chi ymholiad pwysig, wnewch chi gysylltu ag Alun Robats ar estyniad 80808. Llawer o ddiolch.

Ceri Jones sy 'ma. Mae'n ddrwg gen i ond dw i allan o'r swyddfa tan ddydd Gwener, y nawfed o Fawrth. Os oes gynnoch chi ymholiad brys, wnewch chi gysylltu â Siôn Huws ar 70707. Llawer o ddiolch.

Helo, Ceri Jones yn siarad. Dw i'n gweithio i ffwrdd o'r swyddfa heddiw a fedra' i ddim cymryd eich galwad. Gadewch neges ar ôl y tôn ac mi wna' i'ch ffonio chi yn ôl pan fedra i. Diolch yn fawr iawn.

This is Ceri Jones. I am not able to take your call at the moment. Please leave a message after the tone and I will call you back. Thanks.

You've reached Ceri Jones" extension. I am in the office today, but am unable to take your call at the moment. Can you leave a message and I'll phone you back. Thank you.

This is Ceri Jones. I'm sorry but I am out of the office until Friday March the 9th. If you have an urgent enquiry, can you contact Alun Robats on extension 80808. Many thanks.

This is Ceri Jones. I'm sorry but I am out of the office until Friday March the 9th. If you have an urgent enquiry, can you contact Sion Huws on 70707. Many thanks.

Hello, this is Ceri Jones. I'm working away from the office today and I'm not able to take your call. Leave a message after the tone and I will phone you back as soon as I can. Thanks very much.